




# Llais Y Derwent

Gwanwyn 2013

Papur Bro i Ddysgwyr Cymraeg Canolbarth Lloegr

Pris 25c

## Llongyfarchiadau i Elin ac Ed ac i dîm Nottingham!



**M**ae'r dysgwyr yn ddosbarthiadau Belper a gweithdai Derby wedi gorfod yn ymdopi heb ddoniau ein hathrawes Cymraeg lleol am rai wythnosau erbyn hyn. Ond mae'nna reswm teilwng am hynny, sef bod Elin wedi dechrau ei chyfnod mamolaeth. Yn awr yr ydyn ni'n gallu llongyfarch Elin ac Ed am enedigaeth eu mab cyntaf, Taliesin. Mi fydd o'n fachgen talentog iawn os ydy o wedi etifeddu rhinweddau ei rieni. Pob lwc iddo fo yn y dyfodol.

Roedd cystadleuaeth Scrabble holl Ddysgwyr Lloegr yn llwyddiant efo bobl yn dod draw o Stratford ar Afon a de Cymru. Y tîm buddugoliaethus oedd David Hughes a Viv Harris o Nottingham. Mi fydd cystadleuaeth Scrabble unwaith eto blwyddyn nesa.

Mae'r rhaglen S4C Cariad@iaith wedi bod yn chwilio am ddysgwyr i gymryd rhan yn y gyfres nesa. Dyn ni'n wedi clywed bod un o ddysgwyr Belper yn ceisio, wnawn ni ddim cyhoeddi eu henw nhw, rhag i ni achosi embaras, ond pob

lwc yr un fath.

Yr ydyn hefyd yn gwybod bod o leiaf un arall o ddsbarth Belper yn sefyll arholiad yn y Gymraeg ym Mangor ym mis Mehefin. Yr ydyn ni'n sicr eu bod nhw'n mynd i lwyddo.


Mae'r Gweithdy Misol Derby yn Nhŷ Cwrdd y Crynwyr yn parhau tan Fis Mehefin cyn cael seibiant am yr haf. Mae'r dyddiau fel y canlyn: Sadwrn 13 o Ebrill, Sadwrn 11 Mai Sadwrn 22 Mehefin. Does dim dyddiad eto ar gyfer yr Ysgol Undydd yn yr Hydref, ond mi fydd Ysgol Undydd yn cael ei chynnal. Mi fydd y wybodaeth ar gael nes ymlaen.

Mae'r Gymdeithas Cymry wedi diweddarau eu safle we efo holl fanylion rhaglen 2013. Mi fydd chwaer Dawn Parry Sawden sef Ann Wyn Jones o Gaerdydd yn trafodi (trwy'r Saesneg) ar y pwnc *Tyfiant y Gymraeg ym mhrifddinas Cymry* Nos Fercher 24 o Ebrill. Wedyn ym Mis Ebrill mi fydd Gwasanaeth Rhanbarthol Cymmanfa Ganu yn St. Andrew's Nottingham ar Sadwrn 27 o Ebrill yn cychwyn ar 6.30 yh. Mae rhagor o ddigwyddiadau'r gymdeithas i'w gweld ar safle we yma [www.cymdeithas.org.uk/nottingham](http://www.cymdeithas.org.uk/nottingham).

Mi fydd rhai ohonoch wedi sylw bod y *Llais* tipyn bach yn hwyr y tro'ma. Hoffwn ymddiheuro am hyn ond mae bywyd yn brysur a galla i ddim cynhyrchu rhifyn heb gymorth nifer da o bobl eraill sy'n ysgrifennu erthyglau. Felly os oes gynnach chi rywbeth i'w dweud dyma eich cyfle chi.

Mi fydd Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn y gogledd eleni, yn Ninbych. Gobeithio mi fydd nifer go dda o ddarlennwyr 'Llais' yn mynd. I'r rhai sy'n dechrau meddwl am 2014 mi fydd yr Eisteddfod yn Llanelli, a'r flwyddyn wedyn mae'r Brifwyl yn mynd yn ôl i Feifod, ger y Trallwng.

**Jonathan Simcock**



## Iaith Arwyddion Prydain

Iaith Arwyddion Prydain (British Sign Language neu BSL) yw'r iaith a ddefnyddir gan gymuned Fyddar Prydain. Mae hon yn iaith yn ei hunan, yn hytrach na ffordd o siarad Cymraeg neu Saesneg trwy gyfrwng arwyddion. Mae iaith Arwyddion Prydain yn iaith ofodol (spatial) gyda'i gramadeg ei hun, a'i chystrawen (syntax), ei hidiomau a'i hamrywiadau rhanbarthol ei hun. Mae'n defnyddio siapiau a symudiadau dwylo, mynegiadau wynebol a symudiadau ysgwyddau i gyfleu ystyr. Mae pobl sy'n defnyddio BSL hefyd yn defnyddio sillafu bys.

Amcangyfrifir bod rhyw 70,000 o bobl yn defnyddio BSL fel eu hiaith gyntaf, a bod hyd at 250,000 o bobl yn defnyddio peth BSL. Mae ieithoedd arwyddion yn amrywio o wlad i wlad; mae yna wahanol amrywiadau rhanbarthol neu dafodieithoedd, fel sydd mewn ieithoedd eraill.

Datganodd Aristole bod pobol fyddar ddim yn gallu cael eu haddysgu, achos "heb allu clywed, does dim gallu dysgu". Credodd y dilynwyr Sant Augustine mai rhieni plentyn byddar sy ar fai. Arwydd dicter Duw i gosbi eu pechodau yw hi. Addunodd mynachod yn perthyn i urdd Sand Benedict distawrwydd er mwyn barchu Duw, ac er mwyn gyfathrebu gwybodaeth angenrheidiol, datblygon nhw eu hun iaith Arwyddion - monasteriales indicia.

Yn ystod 1666 sylwodd Samuel Pepys yn ei ddyddiadur wnaeth bachgen byddar arwyddo wrth adrodd i'w feistr y cynnydd y Tân Fawr Llundain.

Sylfaenydd ysgol gyntaf i Fyddar roedd Thomas Braidwood, athro o Gaeredin, yn 1760. Ei ddisgyblion roedd meibion y Cyfoethogion. Wnaeth e ddefnyddio math o iaith arwyddion - y sail i BSL heddiw. Sefydlodd ei brotegé Joseph Watson yr ysgol gyntaf cyhoeddus yn Lloegr (London Asylum for the Deaf and Dumb) yn Bermondsey yn ystod 1792.

Fe deithiodd Thomas Hopkins Gallaudet i

Ewrop yn 1815. Gweinidog Protestannaidd Americanaidd roedd e, ymchwiliodd addysgu i Fyddar. Gwrthododd y prifathrawon yr ysgolion yn Llundain a Gaeredin ddadlennu eu dulliau i Gallaudet, ac aeth e i Baris, lle ddysgodd e ddulliau'r Sefydliad Brenhinol Ffrengig i Fyddar. O ganlyniad, mae 60% o'r iaith Arwyddion America yn cyfateb i'r arwyddion Ffrengig. Mae iaith arwyddion Prydain yn hollol annealladwy i'r Byddar America !

Datganwyd yn y Gynhadledd ryngwladol Milan yn 1880 bod addysg lafar yn llawer gwell i addysg llaw, a chafodd iaith arwyddion ei gwahardd mewn ysgolion i blant Byddar. Gorfodwyd y disgyblion i siarad a darllen gwefusau yn lle hynny. Pe tasai plentyn gael ei ddarganfod torri'r rheol hon, bysai e gael ei gosbi.


Er gwaethaf hyn, goroesodd BSL - diolch i ymdrechion rhieni byddar o blant byddar cyfathrebodd â'i gilydd yn ystod gwyliau'r ysgol a diolch hefyd i'r arwyddo cyfrinachgar gan ddisgyblion yn eu hystafelloedd gwely. Er 2003 cafodd BSL ei chydnabod yn swyddogol gan y Llywodraeth fel iaith annibynnol.

Fe deithiodd Thomas Hopkins Gallaudet i Ewrop yn 1815. Gweinidog Protestannaidd Americanaidd oedd e, ymchwiliodd addysg i'r Byddar. Gwrthododd prifathrawon yr ysgolion yn Llundain a Gaeredin ddadlennu eu dulliau i Gallaudet, ac aeth e i Baris, lle ddysgodd e ddulliau'r Sefydliad Brenhinol Ffrengig i'r Byddar. O ganlyniad, mae 60% o'r iaith Arwyddion America yn cyfateb i'r arwyddion Ffrengig. Mae iaith arwyddion Prydain yn hollol annealladwy i'r Byddar yn America!

Datganwyd yn y Gynhadledd ryngwladol Milan yn 1880 bod addysg lafar yn llawer gwell i addysg llaw, a chafodd iaith arwyddion ei gwahardd mewn ysgolion i blant Byddar. Gorfodwyd y disgyblion i siarad a darllen gwefusau yn lle hynny. Pe tasai plentyn gael ei ddarganfod torri'r rheol hon, bysai e'n cael ei gosbi.

Er gwaethaf hyn, goroesodd BSL - diolch i ymdrechion rhieni byddar o blant byddar cyfathrebodd â'i gilydd yn ystod gwyliau'r ysgol a diolch hefyd i'r arwyddo cyfrinachgar gan ddisgyblion yn eu hystafelloedd gwely. Er 2003 cafodd BSL ei chydnabod yn swyddogol gan y Llywodraeth fel iaith annibynnol.

**Adrian Howells**



## Platero a Minnau

**B**lwyddyn Newydd Dda o Nottingham i ddarllenwyr Llais y Dderwent.

Darllenais dros y Nadolig llyfryn bach ail law a brynnais beth amser yn ôl. Fe welwch y teitl uchod. Cyfieithiad yw o lyfr Sbaenaidd a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn 1914 a'r teitl *Platero y yo*. Ond y fersiwn yn fy meddiant yw cyfieithiad a argraffwyd o'r gwreiddiol yn Gymraeg yn 1961 gan E. T. Griffiths a T Ifor Rees. Yr Awdur oedd Juan Ramon Jimenez, (1881 - 1958). Roedd yn fardd ac yn llenor adnabyddus yn byw pan oedd yn ieuanc yn Moguer treflan fach yn Nhe Sbaen. Enillodd y wobr Nobel Llenyddiaeth yn y flwyddyn 1955. Hanes ydyw o ddigwyddiadau dros gyfnod o flwyddyn yn mywyd yr awdur a'i asyn Platero. Os ydych wedi darllen *Travels with my Donkey* gan R L Stevenson fe gofiwch mae asen ystyfnig a diberswad oedd Modestine ond roedd Platero yn hollol wahanol ; asyn bach addfwyn a tyner oedd o, ac roedd na gyfeillgarwch dwfn rhwng Jimenez a Platero. Mae'r llyfr yn llawn o ddwyster a theimladrwydd a hefyd mae na dynerwch yn rhedeg drwy'r hanes. Mae ei ddisgrifiadau o fyd natur a bywyd pentrefol yn wych hefyd. Dyma dyfyniadau bach i rhoi blas i chwi o'r gwaith. Yn gyntaf y geiriau ago-riadol.

*Asyn bach blewog, addfwyn yw Platero, mor esmwyth i'r llaw fel gellid tybio ei wmeuthur o gotwm, heb asgwrn o'i fewn.*

Ac yn ail dyma dyfyniad o dudalen 29 lle mae yn disgrifio ei berthynas a'i gyfeillgarwch â'r asyn bach hoffus:

*Rwyf yn trin Platero yn unig fel pe bai blentyn. Os try y llwybr yn arw, a braidd yn drafferthus iddo, disgynnaf oddiar ei gefn i esmwythau tipyn arno. .... Y mae mor debyg i mi fel y credaf erbyn hyn ei fod yn breuddwydio fy mreuddwydion i fy hun. Y mae ymroddiad Platero i mi fel ymroddiad bun gariadus. Nid achwyn byth. Gwn mai fy moddio i yw ei wynfyd.*

*Ac yn awr dyma brawddeg neu ddwy o hanes trist a thyner Jimenez o ferch fach yn y darfordedigaeth. Daeth deigr yn i fy llygaid pan ddar-*

*llenais y darn llawn am y tro cyntaf.*

*Cymhellais hi i fynd am dro bach ar gefn Platero. Wedi iddi esgyn i'r cyfrwy, O! fel y chwarddai'i hwyneb bach main - wyneb nad oedd namyn llygaid duon a dannedd gwynion, wyneb a chysgod y bedd arno.....Ceddai Platero gan ei bwyll, fel y gwyddai ei fod yn cludo ar ei gefn lili frau o risial.*

*Ac yn ola' dyma ddisgrifiad yr awdur o hyfrydwch y ffrwyth Pomgranad. Y pomgranad oedd ffrwyth arbennig Moguer a gogoniant arfbais y dref. Roedd Platero yn hoff iawn o fwyta pomgranadau ac roedd yr awdur yn ddigon rhadlon i rhannu y ffrwyth gyda'r asyn bach hoffus.*

*Mor brydferth yw'r pomgranad hwn Platero! Aguedilla, yr eneth wirion, a'i danfonodd i mi, hithau wedi ei ddewis o blith y goreuon ei gardd yn Las Monjas. Nid oes unrhyw ffrwyth a bair i ni, fel y gwna hwn, feddwl am ffresni'r dwr a'i maeth. Y mae'n dalp o iechyd ffres a grymus, Beth am ei fwyta, dywed?*

*Os fedrwch cael gafael yn y llyfryn hwn prynwch ef; mae allan o brint wrth gwrs ond mae rhai ail-law ar gael ar y we. Mae'n debyg fod y iaith wreiddiol yn glasurol ac yn farddonol ac mae'r cyfieithwyr wedi llwyddo rwy'n credu i ddefnyddio iaith lenyddol a chlasurol sydd yn gytun â'r Sbaeneg.*

---

### Ymarferiad

Mae'r llyfryn hwn yn llawn o ffurfiau gwasgedig a byr o'r 3ydd person unigol berfau e.e. **erys** yn lle **mae'n aros**, ac mae hyn yn rhoi agwedd lenyddol a chlasurol ar y gwaith. Dyma'r ymarferiad i chwi ddysgwyr a siaradwyr rhugl hefyd! Beth yw'r ferfenw wreiddiol o'r 3ydd person unigol y canlynol? Mae'r ddau cyntaf wedi ei harwyddo.

**Erys > aros; paid > peidio ; cwyd; lleinw; â; cerdd; cyfyd; chwardd; deil; gwyr; try; gesyd; ymegyr; tyf, daw; etyb; gwêl; yf; saif; cyfyd; paid; cwsg; cais; dwg; pair; bwyty; plyg; rhed; pery.**

Mae llawer ohonynt, er nid i gyd, yn dibynnu ar newid llafariad. Ni chlywn y ffurfiau hyn yn aml yn y iaith lafaredig ond mae'r cynildeb sydd ynddynt yn gallu cyfoethogi'r iaith lenyddol ac ysgrifenedig.

Gyda llaw mae na gyfieithiad Saesneg hefyd ar gael - *Platero and I* - ynghyd a rhyw ugain o ieithoedd eraill, os yw eich Sbaeneg braidd y rhyddlyd neu ddim yn bodoli o gwbl! Ond, gorau gyd, dewch ar draws y fersiwn Gymraeg. Ni chewch ei siomi yn y darlleniad.

**Howell Price**

## Enwau lleodd Cymraeg yn Lloegr

**W**rth gwrs mae hi'n dipyn o ergyd i unrhyw Cymro neu Cymraes, byw yn alltud, gadael Cymru fach am wlad y Saeson, ac mae'n fwy na ambell galon fel y plwm, ond nid Llangywer yw'r ardal yma. Prin iawn glywsoch chi air o'r hen iaith yn y Wlad ar ochr draw i Glawdd Offa. Ond ym mhell cyn cafodd Clawdd Offa ei godi yn yr 8fed canrif roedd Brydain i gyd yn eiddo i'r Celtaidd. Hyd heddiw mae'r Sais yn ynganu geiriau sy'n tarddu o'r Gymraeg heb sylwi. Does dim ots pa mor bell i'r dwyrain yr wyt ti wedi teithio, mae'r Cymry alltud yn gallu dod o hyd i enwau lleoedd sy'n tarddu o'r hen iaith y Brythoniaid. Yn Swydd Caint mae hi'n hysbys bod yr enw Dover wedi dod o'r gair dwfr. Wrth gwrs mae hi'n amlwg mae'n fwy o enwau lleoedd o'r hen iaith yn y rhannu gorllewinol a chanolbarth o Loegr na'r dwyrain. Enwau afonydd yn aml iawn yn enwau Celtaidd, er enghraifft yr afonydd Avon, Trent, Derwent, Dove, Wye, ond hefyd enwau brynau fel y Chevin yn Swydd Derby, Mam Tor yn ardal y Peak, a phentrefi fel Pentrich a Crich yn Swydd Derby, Penistone yn Swydd Efrog heb son am enwau lle fel Pen y Gent, Elmet, a Chatterick sy'n ymddangos fel 'Catraeth' yng ngherddi Cymraeg cynnar y Gododdin. Yn Swydd Stafford mae'n bentref o'r enw Penkridge, gair sy'n dod o'r hen brythoneg, mae'n bosib gweld nifer fawr o rheiny yn *Geiriadur Enwau Lleodd Gwasg Prifysgol Rhydychen*, ond mae'n ailyfrau eraill sy'n sôn am enwau lleodd yn Lloegr sy'n tarddu o'r iaith.

Yn ôl y llyfr *Celtic Voices English Places* mae'n dros 2000 o enwau lleodd sy'n dod o'r hen iaith yn Lloegr, maen nhw'n eithaf cyffredin mewn ardaloedd fel Swydd Amwythig, Swydd Henffordd, ond hefyd digon cyffredin yn Swydd Caer, Sir Caerhirfryn a Swydd Efrog. Yr ydw i wedi byw yn Swydd Caer mewn pentref o'r enw 'Tarvin', gair sy'n tarddu o'r gair Terfyn, ac yn agos iawn i Tarvin mae'n afon o'r enw Gowy sy'n hynod o agos at 'Gwy'. Hefyd ger Northwich mae'n ardal o'r enw 'Bryn'. Dyw pobl sy wedi marw dim yn gallu trosglwyddo enwau i bobl dŵad, felly mae hi'n amlwg

bod dipyn o gyfathrebu wedi digwydd rhwng yr hen Gymry a'r Saeson yn yr ardaloedd yma. Mae gan bob cenedl 'Coel-Cread', yr hen goel cred am Gymru yw bod y Saeson cas wedi lladd y Gymry neu wedi gwthio pob un o'r Cymry i'r tir mynyddig gorllewinol sy bellach o dan yr enw Cymru, ond mae bodolaeth yr enwau Celtaidd yma yn Lloegr yn dangos bod hi'n ddigon posib bod nifer go dda o Saeson yn ardaloedd fel Sir Caerhirfryn, Sir Amwythig, Sir Caer, a Sir Henffordd yn Gymry sy wedi colli'r iaith 1500 o flynyddoedd yn ôl. Oes'n gyfle yna i ail gymreigio rhannau o Loegr fel hyn? Mae digon o boblogaidd America yn ymfalchïo yn eu gwreiddiau Gwyddelig, ydy'r amser wedi dod i atgoffa rhan heledd o boblogaeth Lloegr o wreiddiau nhw hefyd?

Nid yn unig mae enwau lleol sy'n tarddu o'r Gymraeg yn yr ardaloedd yma, ond digon aml, enwau sy'n cyfeirio at fodolaeth cymunedau Cymraeg. Er enghraifft mae'n bentref yn Swydd Norfolk sy'n dwyn yr enw 'Wales', mae 'na ambell Walbrook a Walford ar draws lloegr. Yn Nghilgwri (Wirral) mae'n dref o'r enw Wallesey (Ynys y Cymry). Yn ardal y peak ger Eyam mae'n gwm uchel yn y brynau o'r enw 'Bretton Clough', sef Dyffryn y Brythoniaid. Ar ben hynny mae'n enghraifftiau o lleodd ble mae cyfuniad o elfennau o Gymraeg a Saesneg yn digwydd e.e. Ecclesbourne yn Swydd Derby neu Pendle Hill yn Sir Caerhirfryn sef Pen (o'r Gymraeg wrth gwrs) - Hill, Die - Hill o'r Saesneg cynnar a Hill o'r Saesneg cyfoes, felly gwir ystyr Pendle Hill yw Hill Hill Hill, mae rhywbeth tebyg wedi digwydd efo'r avon sy'n dwyn yr enw yn y Saesneg 'River Avon' ( sef River River!).

Mae diddordeb yn enwau lleoedd wedi arwain ambell berson i fynd ati i ddysgu'r Gymraeg neu Ladin. Mae'r enwau lleoedd yma yn rhan bwysig o'r dystiolaeth bod yr iaith Cymraeg wedi cael ei siarad ar draws yr Ynysoedd Prydeinig ar un adeg ac yn rhan o dystiolaeth am bwysigrwydd yr hen iaith i'r byd cyfoes modern.

**Jonathan Simcock**

---

**Cysylltu a Llais Y Derwent**

trwy 01773 827513 neu anfon ebost i  
[dysgwyr5@virginmedia.com](mailto:dysgwyr5@virginmedia.com)

[www.derbywelshlearnerscircle.blogspot.com](http://www.derbywelshlearnerscircle.blogspot.com)